






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Grŵp Cyngor Technegol

Adolygiad o dystiolaeth data a monitro i gefnogi lleoliadau gofal plant, ysgolion ac addysg bellach hyd at 18 oed, yn dilyn symud i Rybudd Iefel 4

6 Hydref 2020



Papur i'r Grŵp Cyngor Technegol gan yr Is-grŵp Plant ac Ysgolion

Adolygiad o dystiolaeth data a monitro i gefnogi lleoliadau gofal plant, ysgolion ac addysg bellach hyd at 18 oed, yn dilyn symud i Rybudd lefel 4

6 Hydref 2020

Cefndir

1. Ar 14 Medi 2020, cyhoeddodd Sefydliad Iechyd y Byd, UNICEF ac UNESCO ganllawiau¹ wedi'u diweddarau ar ysgolion ac addysg yn ystod COVID-19. Maent yn pwysleisio'r egwyddorion sylfaenol pwysig sy'n sicrhau parhad dysgu a datblygiad addysgol a chymdeithasol diogel, digonol a phriodol plant gan leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 mewn lleoliadau addysgol ymhlith plant, pobl ifanc a staff addysg a gofal plant.
2. Codwyd lefel rybudd cenedlaethol y DU gan y Cyd-gyngor Biddiogelwch o lefel 3² i Lefel 4 (trosglwyddiad yn uchel neu'n cynyddu'n gyflym) ar 21 Medi. Mae hyn yn debygol o arwain at oblygiadau o ran gweithredu lleoliadau gofal ac addysg i blant a phobl ifanc hyd at 18 oed gan gynnwys gofal plant, ysgolion ac Addysg Bellach.
3. Mae cyfraddau profion COVID-19 positif yn amrywio'n helaeth ar draws Awdurdodau Lleol Cymru (rhwng 4 a 160 am bob 100,000 o'r boblogaeth ar 23 Medi 2020, sy'n gyfartaledd o 46 am bob 100,000 o'r boblogaeth yng Nghymru; cyfradd profion positif 3.4-7.9%). Cyflwynwyd cyfyngiadau lleol yn ystod mis Medi a mis Hydref 2020 mewn ymateb i gyfraddau heintio cynyddol, sy'n gyson ag egwyddorion lleihau'r 4 niwed, cymesuredd a sybsidiaredd yn gyffredinol.
4. Nododd cyngor TAC blaenorol^{3,4,5} y ffactorau sy'n debygol o gyfrannu at ailagor lleoliadau gofal plant, ysgolion ac addysg bellach yn ddiogel. Roedd hyn yn cynghori hyrwyddo diogelwch COVID-19 drwy hierarchaeth rheolaethau mecanyddol a gweinyddol, gan gyfyngu ar gyswllt wyneb yn

¹ <https://www.unicef.org/media/82736/file/Considerations-for-school-related-public-health%20measures-in-COVID-19-2020.pdf>

² Mae'r Cyd-gyngor Biddiogelwch yn nodi pum lefel o rybudd:

- Lefel pump (coch) - "risg gwirioneddol bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu llethu" - cadw pellter cymdeithasol llym iawn
- Lefel pedwar - lefel uchel neu gynnydd mewn trosglwyddiad – gorfodi cadw pellter cymdeithasol
- Lefel tri - mae'r feirws yn trosglwyddo'n gyffredinol – llacio mesurau cadw pellter cymdeithasol
- Lefel dau - mae nifer yr achosion a'r trosglwyddiad yn isel - ychydig iawn o gadw pellter cymdeithasol
- Lefel un (gwyrdd) - Nid yw COVID-19 yn bresennol yn y DU mwyach - dim cadw pellter cymdeithasol

³ <https://llyw.cymru/y-grwp-cyngor-technegol-cyngor-ar-ddychwelyd-ir-ysgol>

⁴ https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/y-grwp-cyngor-technegol-cyngor-gan-yr-is-grwp-plant-ac-addysg_0.pdf

⁵ <https://llyw.cymru/y-grwp-cyngor-technegol-gorchuddion-wyneb-i-blant-phobl-ifanc-mewn-lleoliadau-addysg>

wyneb, sicrhau rhybudd cynnar drwy fonitro cyfraddau heintio a throsglwyddo, ac olrhain cysylltiadau'n effeithiol.

5. Mae'r papur hwn yn adolygu'r defnydd effeithiol o'r data sydd ar gael ar fesurau diogelwch COVID-19 ac unrhyw oblygiadau ar gyfer gweithrediad lleoliadau gofal plant, ysgolion ac addysg bellach i'r rhai hyd at 18 oed yng Nghymru. Mae'n argymhell data ac adroddiadau ychwanegol a all gefnogi cynnal a sicrhau parhad gofal ac addysg i blant a phobl ifanc, a diogelwch staff, yn ystod cyfnod o drosglwyddo COVID-19 yn y gymuned.
6. Mae setiau data a gesglir fel mater o drefn yn amrywio ar draws lleoliadau gofal plant, ysgolion ac addysg bellach. Cesglir data ar ysgolion a lywodraethir gan Awdurdodau Lleol yn y system CYBLD ar staff a myfyrwyr, a dyma'r set ddata fwyaf cynhwysfawr, sy'n cwmpasu'r gyfran fwyaf o'r boblogaeth o dan 18 oed. Nid yw cyrff annibynnol, gan gynnwys colegau addysg bellach a darparwyr gofal plant, yn casglu'r un setiau data rheolaidd, felly rhaid ystyried argaeledd data ar gyfer pob sector wrth benderfynu ar adroddiadau parhaus. Cesglir data ar brofion COVID-19, achosion positif a data cyswllt ar gyfer myfyrwyr a staff ysgolion a cholegau, a'u cyhoeddi gan lechyd Cyhoeddus Cymru.

Diben adrodd a data ychwanegol:

7. Gall coladu ac adrodd ar ddata yn ychwanegol a rheolaidd gynnig gwell dealltwriaeth o fynychder a dosbarthiad achosion COVID-19 sy'n gysylltiedig â lleoliadau gofal plant, ysgolion ac addysg bellach yng Nghymru, a ffynonellau tebygol yr heintiau hynny. Gall hyn helpu i ganolbwyntio ymyriadau'n effeithiol a lleihau cyfnodau ynysu y gellir eu hosgoi ar gyfer plant, myfyrwyr a staff.
8. Mae tystiolaeth SAGE⁶ yn awgrymu bod heintiau mewn ysgolion yn digwydd yn bennaf yn sgil heintiau o'r cymunedau lleol. Byddai parhau i fonitro data i gefnogi neu i wrthbrofi hyn, neu i awgrymu sefyllfa sy'n newid, yn rhoi sicrwydd fel bod lleoliadau gofal plant, ysgolion ac addysg bellach yn cael eu gweithredu i'r eithaf ar gyfer y rhai o dan 18 oed er gwaethaf cyfraddau trosglwyddo cymunedol uwch.
9. Eir i'r afael ag unrhyw dystiolaeth newydd neu dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ar y diffiniad o gyswllt yng nghyd-destun lleoliadau gofal plant, ysgol neu addysg bellach at ddibenion hunanynysu mewn papur yn y dyfodol.

Cyngor y Grŵp Cyngor Technegol ar gasglu ac adrodd ar ddata i gefnogi gweithrediad diogel lleoliadau gofal plant, ysgolion ac addysg bellach ar gyfer rhai dan 18 oed - egwyddorion a dibenion adrodd:

⁶ Papur SAGE 3 Medi 2020 [S0729 Principles for Managing SARS-CoV-2 Transmission Associated with Further Education.pdf](#)

10. Dylid cydgysylltu a rhannu ffynonellau data allweddol sy'n bodoli eisoes ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru, Awdurdodau Lleol, cyrff lleol Cymru Gydnerth a Llywodraeth Cymru fel y gellir cysylltu'r data, eu dadansoddi a sicrhau eu bod ar gael i ragweld a rheoli'r ymateb i'r pandemig, i hyrwyddo diogelwch a llesiant plant, myfyrwyr a staff, ac i sicrhau'r presenoldeb uchaf posibl mewn lleoliadau gofal plant, ysgolion ac addysg bellach.
11. Dylai adroddiadau am achosion mewn lleoliadau gofal plant, ysgolion ac addysg bellach gynnwys niferoedd a thueddiadau wythnosol o'r canlynol ar gyfer plant, myfyrwyr a staff:
 - 11.1 Data poblogaethau gofal plant, ysgolion ac addysg bellach, fel cyfansymiau yn ôl ardal Awdurdod Lleol safle'r lleoliad, ar gyfer plant a phobl ifanc yn ôl carfanau oedran 0-4, 5-10, 11-15, 16-17, a chyfanswm y staff gofal plant, ysgolion ac addysg bellach sydd mewn cysylltiad uniongyrchol ag unigolion o dan 18 oed ym mhob lleoliad.
 - 11.2 Data achosion ar gyfer yr un carfanau cyffredin, (plant mewn carfanau oedran, a staff) gan gynnwys nifer y profion; nifer y profion positif; nifer y cysylltiadau sy'n hunanynysu, fel y gellir cyfrifo cyfraddau profion, cyfraddau profion positif, a chyfraddau cysylltiadau sy'n hunanynysu ar gyfer pob lleoliad.
 - 11.3 Casglu a dadansoddi data Profi, Olrhain, Diogelu ar gyfer plant hyd at 18 oed, a staff, gan nodi'r lleoliad lle daethpwyd i gysylltiad â'r feirws; lleoliad gofal plant, ysgol neu addysg bellach
 - 11.4 Cyfraddau presenoldeb, absenoldeb salwch awdurdodedig (unrhyw salwch gan gynnwys COVID-19), absenoldebau awdurdodedig oherwydd hunanynysu sy'n ofynnol oherwydd cysylltiad â chlaf COVID-19, ac absenoldeb anawdurdodedig mewn ysgolion
 - 11.5 Nifer y profion COVID-19 positif a chyfraddau profion positif, os yw'n bosib, ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, staff a myfyrwyr mewn lleoliadau gofal plant ac addysg bellach.
 - 11.6 Achosion neu glystyrau sylweddol mewn plant neu staff, lle nodwyd trosglwyddiad o fewn lleoliad gofal plant, ysgol neu leoliad addysg bellach
 - 11.7 Dadansoddi a choladu priodoleddau unigolion agored i niwed gan gynnwys metrigau BAME, Plant sy'n Derbyn Gofal, Anghenion Dysgu Ychwanegol a Diogelu, ar amllder sy'n briodol i'w mynychder yn y boblogaeth o dan 18 oed
 - 11.8 Cyd-destun mesurau trothwy cyffredinol sy'n cael eu defnyddio'n lleol ar hyn o bryd i'w cymharu, megis cyfradd COVID-19 50/100,000 ar gyfartaledd o 7 diwrnod, cyfradd y profion positif a chynnydd neu leihad yn lleol.

Casgliadau ac argymhellion

- Caiff Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru a'r fforymau Cymru Gydnerth ddefnyddio'r adroddiadau a'r mesurau wythnosol hyn er mwyn deall risgiau ac anghenion yn lleol, ac addasu'r cyngor ar ymyriadau anfferyllol (e.e. gorchuddion wyneb, grwpiau cyswllt, ysgolion, gofal plant neu addysg bellach) yn ystod y cyfyngiadau lleol.
- Mae hyn yn cyflawni'r nod cyffredinol o gadw cynifer o blant, myfyrwyr a staff mewn lleoliadau gofal plant, ysgolion neu addysg bellach am mor hir â phosibl, ac osgoi absenoldebau diangen.